# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

HWLG(3)-11-10-p4: 10 Mehefin 2010

## Ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant

### Cyflwynwyd: Mai 2010 gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol - Gwenda Thomas AC

Mae Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant o dan Ddeddf Plant 2004 yn datgan bod rôl newydd gynyddol y Byrddau Lleol Diogelu Plant i ddiogelu a hybu lles plant yn cynnwys tri maes gweithgarwch:

Gwaith ymatebol i amddiffyn plant a phobl ifanc penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed

Gwaith rhagweithiol sy'n targedu grwpiau penodol o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed; a

Gwaith ataliol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc gyda'r nod o ganfod ac atal camdriniaeth neu niwed i iechyd neu ddatblygiad.

### Diben

Mae'r papur hwn yn amlinellu sefydlu a datblygiad Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru a'r mesurau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy bolisi a chanllawiau i gynorthwyo Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru (BLlDPau) fel y bydd pob un ohonynt yn gallu cyflawni'i gyfrifoldebau'n effeithiol i ddiogelu a hybu lles plant yn eu hardal. Dylid darllen y papur hwn ochr yn ochr â'r papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sydd hefyd yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd, ac mae wedi'u cymryd, i gynorthwyo gwaith BLlDPau yng Nghymru.

### Ein Gweledigaeth

2. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio datblygu fframwaith a ddylai alluogi sefydliadau allweddol sydd â chyfrifoldebau diogelu statudol i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i hybu lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhannu'r un agwedd â'r sefydliadau hyn bod diogelu plant yn flaenoriaeth allweddol, a'n bod am weld pob plentyn yn cael plentyndod diogel, iach a phleserus sy'n rhoi sylfaen sefydlog iddynt am weddill eu bywydau ac sy'n eu galluogi i dyfu a gwneud cyfraniad gwerth chweil at gymdeithas fel oedolion.

3. Mae'n hanfodol bod polisi, arferion a systemau cymorth ar bob lefel yn hynod o effeithiol i sicrhau bod plant sydd angen lefelau ychwanegol o amddiffyniad a diogelwch yn mwynhau'r un cyfleoedd mewn bywyd â'u cymheiriaid. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol i BLlDPau i sicrhau craffu a thystiolaeth ychwanegol a all gyfrannu at welliannau pellach mewn trefniadau diogelu plant.

### Cefndir Sefydlu BLlDPau

4. Yr oedd y penderfyniad i roi BLlDPau ar seiliau statudol a chreu trefniadau i sicrhau eu bod yn effeithiol yn ymateb i adroddiad yr Arglwydd Laming i farwolaeth Victoria Climbie (2003):

Argymhelliad 7: The local authority chief executive should chair a Management Board for Services to Children and Families which will report to the Member Committee referred to above. The Management Board for Services to Children and Families must include senior officers from each of the key agencies. The Management Board must also establish strong links with community-based organisations that make significant contributions to local services for children and families. The Board must ensure staff working in the key agencies are appropriately trained and are able to demonstrate competence in their respective tasks. It will be responsible for the work currently undertaken by the Area Child Protection Committee.

5. Penderfynodd Llywodraeth y DU y dylai'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant blaenorol gael eu diddymu a'u disodli - a'u rhoi ar seiliau statudol - drwy sefydlu BLlDPau i sicrhau bod trywydd atebolrwydd yn bodoli o wasanaethau rheng flaen yr holl ffordd at y llywodraeth.

### Y Fframwaith Cyfreithiol

6. Yr oedd Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr sefydlu BLlDP, a nod y rhain fyddai:

(a) cydlynu'r hyn sy'n cael ei wneud gan bob person neu gorff sy'n cael ei gynrychioli ar y Bwrdd i ddibenion diogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod lle mae wedi'i sefydlu; a
(b) sicrhau effeithiolrwydd yr hyn sy'n cael ei wneud gan bob person neu gorff ar gyfer y dibenion hynny.

7. Yng Nghymru, sefydlwyd BLlDPau ar 1 Hydref 2006 o dan Reoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru (Cymru) 2006.

### Aelodaeth Statudol ac Anstatudol

8. Mae Deddf 2004 yn enwi pa bartneriaid statudol awdurdod lleol yng Nghymru sy'n rhaid cael eu cynrychioli ar bob BLlDP. Y bobl a'r cyrff allweddol o fewn ardal awdurdod lleol sydd wedi'u cynnwys o fewn y ddyletswydd hon yw awdurdodau lleol, prif swyddog yr heddlu, byrddau prawf lleol, darparwyr gwasanaethau prawf (yn unol â Deddf Rheoli Troseddwyr 2007), Ymddiriedolaethau'r GIG,

Byrddau Iechyd Lleol, Timau Troseddau Ieuenctid, Llywodraethwyr Carchardai sydd fel arfer yn cadw plant a Llywodraethwyr / Cyfarwyddwyr Canolfannau Hyfforddi Diogel.

9. Mae Rheoliadau 2006 sy'n rhagnodi aelodau sylfaenol BLlDPau ar gyfer pob asiantaeth bartner yn fwy rhagnodol na'r trefniadau cyfatebol yn Lloegr lle nad oes rheoliadau ar gyfer lefel briodol i'r gynrychiolaeth.

10. Drwy ganllawiau statudol gall Gweinidogion Cymru hefyd ei gwneud yn ofynnol bod BLlDPau yn gofyn i eraill fod yn gysylltiedig â gwaith Byrddau Diogelu - mae hyn yn gyfeiriad penodol at yr angen i BLlDPau gynnwys CAFCASS CYMRU, NSPCC, gwasanaethau cymdeithasol oedolion, gwasanaethau iechyd oedolion (yn enwedig gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a gwasanaethau anabledd oedolion), grwpiau ffydd, ysgolion gwladol ac annibynnol, colegau addysg bellach gan gynnwys colegau chweched dosbarth, canolfannau plant, cartrefi plant annibynnol, darparwyr maethu annibynnol, meddygon teulu, sefydliadau gofal iechyd annibynnol, mudiadau gwirfoddol a chymunedol, y lluoedd arfog, y gwasanaeth mewnfudo a'r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches os yw lefel eu gweithgarwch yn lleol yn sylweddol.

### Swyddogaethau

11. Cafodd BLlDPau eu cynllunio i fod yn gyfrwng i symud ymlaen o'r pwyslais mwy cyfyngedig ar amddiffyn plant tuag at agenda ddiogelu ehangach. Nid yw Deddf Plant 2004 yn rhoi cyfrifoldeb am yr amrediad cyfan o ystyriaethau diogelu ar ysgwyddau'r BLlDP. Mae prif ddyletswyddau Bwrdd Diogelu'n ymwneud â chydlynu gweithgarwch rhwng asiantaethau. O dan Reoliadau Byrddau Lleol Diogelu Plant (Cymru) 2006, y swyddogaethau a ragnodir yw:

### Hyrwyddo a Chodi Ymwybyddiaeth

cymryd camau sydd â'r nod o feithrin perthynas o ymddiriedaeth a dealltwriaeth gilyddol ymhlith y personau neu'r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd o ran diogelu a hybu lles plant o fewn ardal y Bwrdd

cymryd camau sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth ledled ardal y Bwrdd o'r angen i ddiogelu a hybu lles plant a darparu gwybodaeth am y modd y gellir cyflawni hyn

lledaenu gwybodaeth am yr arferion gorau wrth ddiogelu a hybu lles plant ymhlith y cyrff cynrychioliadol a'r personau eraill hynny y mae'r Bwrdd yn barnu eu bod yn briodol.

### Gweithdrefnau

datblygu gweithdrefnau sydd â'r diben o gydlynu'r hyn a wneir gan bob corff cynrychioliadol at ddibenion diogelu a hybu lles plant o fewn ardal y Bwrdd, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau o ran rhannu gwybodaeth

cydweithredu â Byrddau eraill (p'un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) ac unrhyw gyrff tebyg o'r fath yn yr Alban a Gogledd Iwerddon os bydd y Bwrdd yn ystyried y byddai hynny o fudd cilyddol.

### Ymchwil

gwneud ymchwil i ddiogelu a hybu lles plant

ceisio cyngor neu wybodaeth os yw'r Bwrdd o'r farn bod hynny'n ddymunol at ddibenion unrhyw un o'r swyddogaethau uchod.

### Hyfforddiant

adolygu anghenion hyfforddi'r sawl sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd gyda'r bwriad o ganfod gweithgareddau hyfforddi a chynorthwyo i ddiogelu a hybu lles plant yn ardal y Bwrdd

darparu hyfforddiant er mwyn cynorthwyo i ddiogelu a hybu lles plant yn ardal y Bwrdd.

### Monitro ac Adolygu

adolygu effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd i gydlynu'r hyn a wnânt at ddibenion diogelu a hybu lles plant o fewn ardal y Bwrdd a gwneud pa argymhellion bynnag y gwêl yn dda ar gyfer y personau neu'r cyrff hynny yng ngoleuni'r cyfryw adolygiad

monitro i ba raddau y mae unrhyw argymhellion a wnaed mewn adolygiad yn cael eu bodloni neu wedi cael eu bodloni

datblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad awdurdod gwasanaethau plant yn erbyn y cynllun a luniwyd o dan adran 26 o Ddeddf 2004 (cynlluniau plant a phobl ifanc), i'r graddau y mae'r cynllun yn ymwneud â diogelu a hybu lles plant yn ardal un o'r awdurdodau.

### Adolygiadau Achos Difrifol

cynnal adolygiadau achos difrifol

monitro i ba raddau y mae unrhyw argymhellion a wnaed mewn adolygiad yn cael eu bodloni neu wedi cael eu bodloni.

12. Mae swyddogaethau BLlDPau yng Nghymru'n fwy eang eu cwmpas na'r rhai a amlinellir yn y rheoliadau ar gyfer Lloegr, ond nid oes cyfrifoldeb statudol ar BLlDPau yng Nghymru i gasglu a dadansoddi gwybodaeth am farwolaethau plant yn eu hardal fel sy'n digwydd yn Lloegr. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad y byddai maint BLlDPau yng Nghymru yn ei gwneud yn anodd i bob Bwrdd Diogelu gasglu a lledaenu data ystyrlon. Mae wedi comisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal astudiaeth beilot yng Nghymru i edrych ar yr ystyriaethau sydd ynghlwm wrth gyflwyno system Cymru gyfan i adolygiadau marwolaethau plant, a bydd canlyniadau'r astudiaeth beilot honno'n hysbys ym mis Mawrth 2011.

13. Er bod gan y BLlDP rôl i gydlynu a sicrhau effeithiolrwydd gwaith unigolion a sefydliadau nid yw'n atebol am eu gwaith gweithredol. Mae holl bartneriaid y bwrdd yn gofalu am eu trefniadau atebolrwydd eu hunain. Yng Nghymru, fel yn Lloegr, mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynhyrchu Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPhI) o dan adran 26 Deddf Plant 2004 sy'n amlinellu'r gwelliannau sydd angen eu gwneud gyda chyfeiriad at saith nod craidd Llywodraeth y Cynulliad a dylai gweithgareddau'r BLlDP fod yn rhan o'r CPPhI.

## Canllawiau Statudol

14. Mae Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2006 yn rhoi canllawiau i brif swyddogion a phob rheolwr ac ymarferwr yn y cyrff hynny a enwir fel partneriaid statudol BLlDPau yng Nghymru, a'r bwriad yw eu galluogi i adolygu eu polisïau, eu gweithdrefnau a'u harferion, dadansoddi cyflwr diogelu a hybu lles plant o fewn eu cyrff a phenderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i weithredu'r canllawiau. Mae'n amlinellu sut y dylai pob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol weithio gyda'i gilydd i ddiogelu a hybu lles plant a'u hamddiffyn rhag niwed ac mae hefyd yn berthnasol i asiantaethau eraill yn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol sy'n dod i gysylltiad â phlant yn sgil eu gwaith.

15. Nid oedd Gweithio gyda'n Gilydd yn ceisio rhagnodi sut y dylai asiantaethau reoli cysylltiadau rhwng BLlDPau a sefydliadau partner eraill (Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn fwyaf arbennig). Er hynny, yr oedd partneriaid BLlDPau yn cael eu hannog i ddatblygu strwythurau i fanteisio i'r eithaf ar drefniadau cydweithio, lleihau'r gwaith a ailadroddir a sicrhau trefniadau atebolrwydd pendant.

16. Yr oedd y canllawiau'n argymell y dylai asiantaethau ystyried datblygu trefniadau i ddwyn uwch swyddogion o bob asiantaeth allweddol at ei gilydd, gyda chyfrifoldebau neu ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Plant 2004, fel aelodau Grŵp Cydgysylltu Strategol i dderbyn cyfrifoldeb dros gydlynu gweithgareddau'r gwahanol gyrff ac i arwain cyfeiriad strategol y partneriaid allweddol a fyddai'n cyflawni'r dyletswyddau statudol hynny. O dan drefniadau o'r fath, byddai'r BLlDPau yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol am eu swyddogaethau statudol ond byddent yn gweithio drwy'r Grŵp Strategol ac yn dilyn yr arweiniad strategol a bennwyd gan y Grŵp hwnnw.

17. Er bod rôl diogelu'r BLlDPau yn llawer ehangach na phwyslais mwy cyfyngedig a roddid ar amddiffyn plant gan y Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant cynharach, mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn ei gwneud yn amlwg bod gweithio i amddiffyn plant yn parhau'n nod allweddol i'r BLlDPau. Yn wir, mae'n pwysleisio na ddylent ganolbwyntio ar eu rôl ddiogelu ehangach os ydynt yn teimlo nad yw safon y busnes craidd hwn yn ddigon uchel. Dylai pwyslais BLlDPau barhau i fod ar amddiffyn plant rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Dylai polisïau ac arferion felly gael eu targedu'n bennaf at y plant hynny sy'n dioddef, neu sy'n mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol. Mae sicrhau bod polisïau ac arferion effeithiol ar waith i amddiffyn plant a sicrhau eu bod yn cael eu cydlynu'n briodol yn parhau i fod yn un o rolau allweddol BLlDPau. Dim ond pan mae'r trefniadau hyn ar waith y dylai Byrddau Diogelu ystyried eu cylch gwaith ehangach i ddiogelu a hybu lles pob plentyn.

18. Ers cyhoeddi Gweithio Gyda'n Gilydd yn 2006 mae Canllawiau'r Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi canllawiau atodol ar Ddiogelu Plant ag Arnynt Salwch Ffug neu Salwch Gwneud (2008); Diogelu Plant Rhag Cael eu Cam-drin mewn Cysylltiad â Chred mewn Meddiant gan Ysbrydion (2008) ac Amddiffyn Plant a Allai fod wedi cael eu Masnachu (2008). Bydd canllawiau drafft ar Safeguarding Children and Young People who may be Sexually Exploited yn cael eu cyhoeddi fel dogfen ymgynghori'n fuan.

## Cyllid

19. Canfuwyd fod cyllido'r cyn Bwyllgorau Ardal Amddiffyn Plant yng Nghymru a Lloegr yn faes problemus. Awgrymodd Ymchwiliad Climbie (Laming 2003) y dylai pob un o'r asiantaethau lleol gyfrannu at y gyllideb sydd ar gael i'r BLlDPau. Mae Deddf Plant 2004 yn datgan y gall partneriaid statudol y Bwrdd wneud taliadau uniongyrchol at ddibenion sy'n gysylltiedig â BLlDP neu ar gyfer darparu staff, gwasanaethau ac adnoddau eraill.

## Trefniadau Rheoli Perfformiad

20. Mae Gweithio Gyda'n Gilydd yn amlinellu swyddogaethau monitro ac adolygu BLlDPau yng Nghymru o safbwynt:

adolygu effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd i gydlynu'r hyn a wnânt at ddibenion diogelu a hybu lles plant o fewn ardal y Bwrdd a gwneud pa argymhellion bynnag y gwêl yn dda ar gyfer y personau neu'r cyrff hynny yng ngoleuni'r cyfryw adolygiad

monitro i ba raddau y mae unrhyw argymhellion a wnaed mewn adolygiad yn cael eu bodloni neu wedi cael eu bodloni

21. Datblygu meini prawf ar gyfer mesur perfformiad awdurdod gwasanaethau plant yn erbyn y cynllun a luniwyd o dan adran 26 Deddf 2004 (cynlluniau plant a phobl ifanc), i'r graddau y mae'r cynllun yn ymwneud â diogelu a hybu lles plant yn ardal yr awdurdod.

22. Er mwyn osgoi ailadrodd gwaith mae'r canllaw yn datgan y dylai BLlDP sicrhau bod ei rôl monitro'n ategu gwaith y partneriaethau plant a'r arolygiaethau ac y dylai effeithiolrwydd y BLlDP fod yn rhan o ddyfarniad yr arolygiaethau.

## Adolygu Byrddau Lleol Diogelu Plant

23. Pan oedd y Rheoliadau Llywodraethu ar gyfer BLlDPau yn cael eu hystyried yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol, cafwyd ymrwymiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adolygu dull y BLlDPau o weithredu a pha mor addas fu'r rheoliadau a'r canllawiau yn ystod blwyddyn gyntaf eu gwaith. Cwblhawyd adroddiad ar flwyddyn gyntaf gwaith y BLlDPau yng Nghymru yn ystod gwanwyn 2008, ac mae bellach wedi'i gyhoeddi.

24. Cynhaliodd y grŵp adolygu arfarniad trylwyr o faterion a gwnaeth nifer o argymhellion adeiladol y gellid eu hystyried wrth fwrw ymlaen â'r agenda sy'n wynebu BLlDPau yng Nghymru. Daeth yr adolygiad o BLlDPau i ben yng ngwanwyn 2008 a nododd y Gweinidogion argymhellion yr adroddiad. Er na chafwyd ymateb ffurfiol iddo gan Lywodraeth y Cynulliad, cafwyd adolygiad llawn o gadernid trefniadau diogelu plant yng Nghymru, a oedd yn cynnwys trefniadau gan BLlDPau, ym mis Tachwedd 2008. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried sut i weithredu argymhellion yr adolygiad, ochr yn ochr â'r gwaith diogelu sy'n cael ei wneud, yn enwedig gwaith Fforwm Diogelu Plant Cymru a chanlyniadau ymchwiliad y Pwyllgor i BLlDPau yng Nghymru

## Adolygu Trefniadau Diogelu yng Nghymru

25. Yr oedd y papur a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) cyn iddo roi tystiolaeth gerbron y Pwyllgor yn amlinellu trefniadau a roddwyd ar waith gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2008 i gael sicrwydd bod y trefniadau diogelu'n gadarn, bod asiantaethau lleol allweddol wedi cymryd camau i fodloni eu hunain bod hyn yn wir ac i ystyried gwelliannau y gellid eu gwneud. Arweiniodd y trefniadau hyn, a oedd yn cynnwys BLlDPau ac AGGCC, ac Arolygiad Gofal Iechyd Cymru, at gyhoeddi adroddiadau ar yr arolygiadau hyn ym mis Hydref 2009, ac yr oedd y rhain ar gael i'r Pwyllgor. Hefyd cyhoeddwyd adroddiad pellach ar fframwaith ar gyfer y dyfodol ar gyfer adolygiadau achos difrifol ac yr oedd y rhain hefyd ar gael i'r Pwyllgor.

26. Trafodwyd yr adroddiadau yng Nghyfarfodydd Llawn y Cynulliad Cenedlaethol ar 20 Hydref 2009 ac 17 Tachwedd 2009, lle cafodd trefniadau i roi cymorth pellach i'r agenda ddiogelu a gwaith BLlDPau eu hamlinellu. Elfennau craidd o'r gwaith sy'n cael ei wneud yw sefydlu Fforwm Diogelu Plant Cymru, parhau â'r gwaith sy'n ymwneud â fframwaith newydd ar gyfer Adolygiadau Achos Difrifol ac edrych ar arweinyddiaeth BLlDPau a'r berthynas â phartneriaethau eraill sydd hefyd â chyfrifoldebau dros ddiogelu.

## Fforwm Diogelu Plant Cymru

27. Sefydlwyd y Fforwm i sicrhau bod sefydliadau diogelu allweddol wedi cael cyfle i wneud cyfraniad effeithiol tuag at gyfeiriad strategol agenda ddiogelu Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y Fforwm yn adrodd ar ei waith i Lywodraeth y Cynulliad ddwywaith y flwyddyn.

## Adolygiadau Achos Difrifol

28. Yr oedd yr adroddiad a gyhoeddwyd gan AGGCC yn argymell bod rhagor o waith yn cael ei wneud i edrych ar ystyriaethau sydd ynghlwm wrth oblygiadau ymarferol gweithredu fframwaith ar gyfer adolygiadau achos difrifol yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu hefyd gan grŵp llywio aml-asiantaeth a sefydlwyd gan AGGCC, a hefyd gan weithdai ymarferwyr er mwyn datblygu'r cynigion ymhellach. Bydd Fforwm Diogelu Plant Cymru yn ystyried y mater hwn ymhellach, a bydd cynigion ar weithredu trefniadau'n cael eu rhoi gerbron Gweinidogion yn y man.

## BLlDPau a Threfniadau Partneriaeth

29. Mae arweinyddiaeth a threfniadau partneriaeth yn feysydd allweddol y mae angen canolbwyntio arnynt, ac mae llythyr a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Tachwedd 2009 at Brif Weithredwyr awdurdodau lleol Cymru yn gofyn iddynt adolygu'r trefniadau ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

30. Cyhoeddodd AGGCC adroddiad ar 20 Hydref 2009 a oedd yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu BLlDPau wrth iddynt geisio cyflawni eu cylch gwaith. Er y cydnabyddir ei bod yn cymryd amser i sefydlu trefniadau ar y cyd yn effeithiol, yr oedd yn amlwg bod y trefniadau'n llai effeithiol mewn rhai meysydd na'i gilydd. Un o'r problemau a nodwyd fel rhwystr yw lefel yr ymgysylltu - yn enwedig ar lefel ddigon uchel - ymhlith sefydliadau y tu hwnt i strwythur yr awdurdod lleol i alluogi cydweithio mwy effeithiol. Mae'r adroddiad yn cydnabod pan welwyd tystiolaeth o arweiniad ac ymrwymiad eglur bod hyn yn cael effaith ar effeithiolrwydd y BLlDP.

31. Gofynnwyd i Brif Weithredwyr awdurdodau lleol am eu sylwadau ar effeithiolrwydd y berthynas sy'n bodoli ar draws yr amrywiol bartneriaethau, yn enwedig cysylltiadau rhwng y BLlDP a'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, ac i adrodd ar:

(i) lefel yr ymgysylltu - o ran adnoddau ac o ran lefel yr uwch swyddogion - yn achos pob partner statudol a sut y mae hyn yn adlewyrchu ar effeithiolrwydd y BLlDP, a'r camau y gellid eu cymryd i wella hynny
(ii) pa drefniadau - strwythurol neu fel arall - y gellid eu rhoi ar waith i wella effeithiolrwydd y cysylltiadau rhwng y partneriaethau hyn a'r BLlDP ymhellach.

32. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awr yn ystyried canlyniadau'r ymarferiad hwn.

## Casgliad

33. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod BLlDPau yn parhau, o safbwynt aeddfedrwydd, i fod yn elfen gymharol newydd o'r agenda ddiogelu. Er y bydd yr angen i adolygu a myfyrio'n anorfod, rhaid edrych ar hyn yng nghyd-destun disgwyliadau uchel, ac yn erbyn cefndir dull o weithredu sy'n dal i ddatblygu.

34. Er bod cynnydd i'w weld, mae adroddiadau grŵp adolygu BLlDPau a'r arolygiad gan AGGCC yn 2009 wedi canfod tystiolaeth o heriau y bydd yn rhaid rhoi sylw iddynt os yw'r cynnydd am barhau, yn enwedig mewn materion fel cysondeb wrth ddarparu gwasanaethau. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad rôl allweddol yn y broses hon o roi arweiniad a sicrhau fframwaith lle bydd aelodau BLlDPau, gyda'i gilydd ac yn unigol, yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau ac yn cyrraedd safon dderbyniol o uchel o ran eu perfformiad sy'n cyrraedd disgwyliadau'r cyhoedd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i wynebu'r heriau hynny mewn partneriaeth ag asiantaethau diogelu lleol, ac ar y cyd drwy strwythur y Byrddau Lleol Diogelu Plant.

Gwenda Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
Mai 2010